

Help i gwblhau eich cais am drwydded gwerthwr metel sgrap

Os oes angen mwy o help arnoch i lenwi'r ffurflen gais, mae croeso i chi wneud apwyntiad gyda'r awdurdod trwyddedu ar 01633 656656. Mae rhagor o fanylion am fetel sgrap ar gael ar wefan y cyngor hefyd <https://www.newport.gov.uk/cy/Business/Licences-permits/Licences-and-Permits.aspx>

Adran 1 – Manylion y Drwydded

Mae'r adran hon yn gofyn a ydych yn gwneud cais am drwydded casglwr neu drwydded safle. Dim ond un math o drwydded ym mhob ardal cyngor y gallwch wneud cais amdano, ond gallwch wneud cais i redeg nifer o safleoedd

Mae **trwydded safle** yn eich caniatáu i brynu a gwerthu metel sgrap o leoliad sefydlog yn ardal y cyngor ac yn awdurdodi person yr ydych yn ei gyflogi i gasglu metel sgrap yn ardal Casnewydd ac ardaloedd trwyddedu eraill.

Mae **trwydded casglwr** yn caniatáu i chi deithio yn ardal y cyngor i gasglu metel sgrap. Ni chewch fynd â'r metel hwn yn ôl i safle rydych yn ei redeg o fewn ardal y cyngor er mwyn ei werthu.

Adran 2 – Manylion Busnes

Mae'r adran hon yn gofyn am eich enw a'ch cyfeiriad busnes. Os ydych yn gwneud cais am drwydded casglwr rhowch eich cyfeiriad cartref. Os ydych yn gwneud cais am drwydded safle rhowch yr enw masnachu a'r cyfeiriad safle. Os mai gweithredwr achub cerbydau modur yw eich busnes, nodwch y bydd angen trwydded safle arnoch ar gyfer hyn. Diffinnir gweithredwr achub cerbydau modur fel a ganlyn:

Busnes sydd:

- yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn adfer rhannau y gellir eu hachub o gerbydau modur i'w hailddefnyddio neu eu hailwerthu, ac yna'n gwerthu gweddill y cerbyd ar gyfer sgrap;
- yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ymwneud â phrynu cerbydau nad ydynt yn weithredol mwyach ac yna eu hatgyweirio a'u gwerthu; a
- yn prynu neu'n gwerthu cerbydau modur yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn achub rhannau ohonynt neu eu hatgyweirio a'u gwerthu.

Adran 3 - Manylion yr Ymgeisydd

Mae'r adran hon yn gofyn am fanylion o ran p'un a ydych yn gasglwr, yn bartneriaeth neu'n gwmni. Os ydych yn gasglwr, dylid ei llenwi yn enw'r person a fydd yn meddu ar y drwydded gwerthwr metel sgrap. Gofynnir i chi roi manylion cyswllt, gan gynnwys lle rydych yn byw, fel y gall y cyngor gysylltu â chi os oes angen.

Mae angen i chi gyflwyno Tystysgrif Datgelu Sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghyd â'r ffurflen gais, a llun pasbort. Gallwch wneud cais am y dystysgrif hon yn www.gov.uk/request-copy-criminal-record

Y rheswm am hyn yw bod y Swyddfa Gartref wedi penderfynu bod angen i chi ddweud wrth y cyngor os ydych wedi'ch cael yn euog o droseddau penodol. Ni fydd meddu ar euogfarn yn eich atal yn awtomatig rhag cael trwydded cyn belled nad oedd y drosedd yn gysylltiedig â bod yn werthwr metel sgrap neu os oedd y drosedd amser maith yn ôl, a gallwch argyhoeddi'r cyngor eich bod yn berson addas.

Ystyrir bod Tystysgrif Datgelu Sylfaenol yn ddilys am gyfnod cyfyngedig yn unig, ond gellir ei defnyddio i wneud cais i gynifer o gynghorau ag y dymunwch o fewn y cyfnod hwnnw. Fel arfer, tri mis yw'r hiraf y gallwch ddisgwyl i'ch gwiriad gael ei ystyried yn ddilys.

Bydd angen i chi sicrhau bod eich holl gerbydau'n addas i'r ffordd ac yn cael eu trethu a'u hyswiro'n briodol ac fel arall yn bodloni'r gofynion cyfreithiol i fod ar y ffordd.

Os ydych yn bartneriaeth neu gwmni, dylid ei llenwi yn enw'r person neu'r busnes a fydd yn meddu ar y drwydded gwerthwr metel sgrap. Yn ogystal â manylion amdanoch chi a'ch busnes, bydd arnom angen manylion unrhyw gyfarwyddwyr neu bartneriaid sy'n ymwneud â'r busnes hefyd, gan gynnwys eu cyfeiriad cartref.

Mae angen i chi ac unrhyw berson a nodir ar y ffurflen gais gyflwyno Tystysgrif Datgelu Sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallwch wneud cais am y dystysgrif hon yn

www.gov.uk/request-copy-criminal-record

Y rheswm am hyn yw bod y Swyddfa Gartref wedi penderfynu bod angen i chi ac unrhyw berson sydd wedi'i nodi ar y cais ddweud wrth y cyngor os ydych wedi'ch cael yn euog o droseddau penodol. Ni fydd meddu ar euogfarn yn eich atal yn awtomatig rhag cael trwydded cyn belled nad oedd y drosedd yn gysylltiedig â bod yn werthwr metel sgrap neu os oedd y drosedd amser maith yn ôl, a gallwch argyhoeddi'r cyngor eich bod yn berson addas.

Ystyrir bod Tystysgrif Datgelu Sylfaenol yn ddilys am gyfnod cyfyngedig yn unig, ond gellir ei defnyddio i wneud cais i gynifer o gynghorau ag y dymunwch o fewn y cyfnod hwnnw. Fel arfer, tri mis yw'r hiraf y gallwch ddisgwyl i'ch gwiriad gael ei ystyried yn ddilys.

Nid oes llawer o le ar y ffurflen, felly os oes angen i chi restru mwy nag un cyfarwyddwr, neu bartner, yn parhewch ar ddarn o bapur ar wahân gan nodi'r manylion yn yr un ffordd â'r ffurflen.

Cyfarwyddwr neu **bartner** yw rhywun sydd â neu'n rhannu cyfrifoldeb cyfreithiol am weithredu'r cwmni, gan gynnwys ffeilio ffurflenni yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Adran 4 – Addasrwydd yr Ymgeisydd

Mae'r adran hon yn gofyn i chi nodi unrhyw euogfarnau neu weithgarwch gorfodi perthnasol a wnaed yn eich erbyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n drosedd o dan Ddeddf Gwerthwyr Metel Sgrap 2013 i wneud neu wneud yn ddi-hid unrhyw ddatganiad ffug. Bydd y wybodaeth a restrir yma yn cael ei gwirio yn erbyn y Dystysgrif Datgelu Sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y mae'n ofynnol i chi ei chyflwyno gyda'r cais, ynghyd â gwybodaeth a gedwir gan yr heddlu ac Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Adran 5 - Manylion y Safle

Dim ond yr ymgeiswyr hynny sy'n gwneud cais am drwydded safle sydd angen cwblhau'r adran hon. Os oes gennych fwy na dau safle yn ardal yr awdurdod, parhewch ar ddalen ar wahân.

Mae angen i ni hefyd wybod enw rheolwr y safle ar gyfer pob safle. **Rheolwr safle** yw'r person a fydd yn gyfrifol am y safle yn ddyddiol. Mae angen i'r person hwn gyflwyno Tystysgrif Datgelu Sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallwch wneud cais am y dystysgrif hon yn www.gov.uk/request-copy-criminal-record

Y rheswm am hyn yw bod y Swyddfa Gartref wedi penderfynu bod angen i chi ac unrhyw berson sydd wedi'i nodi ar y cais ddweud wrth y cyngor os ydych wedi'ch cael yn euog o droseddau penodol. Ni fydd meddu ar euogfarn yn eich atal yn awtomatig rhag cael trwydded cyn belled nad oedd y drosedd yn gysylltiedig â bod yn werthwr metel sgrap neu os oedd y drosedd amser maith yn ôl, a gallwch argyhoeddi'r cyngor eich bod yn berson addas.

Ystyrir bod Tystysgrif Datgelu Sylfaenol yn ddilys am gyfnod cyfyngedig yn unig, ond gellir ei defnyddio i wneud cais i gynifer o gynghorau ag y dymunwch o fewn y cyfnod hwnnw. Fel arfer, tri mis yw'r hiraf y gallwch ddisgwyl i'ch gwiriad gael ei ystyried yn ddilys.

Os sefydlwyd eich safle(oedd) ar ôl 1990, yna mae'n ofynnol i chi gael caniatâd cynllunio gan y cyngor. Bydd angen i chi ddweud wrthym os mai dyma'r achos, a chaiff ei wirio gydag adran gynllunio'r cyngor.

Adran 6 – Manylion Cyfrif Banc

Mae'r adran hon yn gofyn i chi am y manylion banc y byddwch yn eu defnyddio i dalu pobl am y metel sgrap rydych yn ei dderbyn neu'n ei werthu. Mae hyn er mwyn gwirio nad ydych yn gwerthu'r metel am arian parod, sy'n anghyfreithlon. Bydd y manylion hyn yn cael eu cadw'n ddiogel gan y cyngor.

Adran 7 - Datganiad

Mae angen i'r person a fydd yn meddu ar y drwydded gwerthwr metel sgrap lofnodi a dyddio'r datganiad, yn yr un modd â phobl eraill a enwir ar y ffurflen. Mae'r adran hon hefyd yn esbonio bod rhaid i'r cyngor rannu rhai o'r manylion hyn gyda'r heddlu, Asiantaeth yr Amgylchedd, neu Cyfoeth Naturiol Cymru wrth wirio a yw'r ymgeisydd/ymgeiswyr yn unigolyn/unigolion addas i feddu ar drwydded. Bydd peth o'r wybodaeth hefyd yn cael ei harddangos ar gofrestr gyhoeddus.

Os nad ydych yn cytuno i'r defnydd hwn o'ch gwybodaeth yna **ni** ddylech lofnodi'r ffurflen. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch beth mae'r adran hon yn ei olygu, siaradwch â thîm trwyddedu eich cyngor.

Adran 8 - Talu

Mae ffi i wneud cais am drwydded a bydd eich cyngor yn dweud wrthyh sut y gallwch dalu. Mae'r ffi'n amrywio o gyngor i gyngor gan ei fod yn adlewyrchu eu costau o brosesu'r ffurflen a gwirio bod pobl yn gwneud yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y drwydded. Ni ellir derbyn ceisiadau oni bai bod y ffi gywir wedi'i thalu.